

Prosiect Annibynnol 2024 / Independent Project 2024

Eich Cais / Your Proposal

Teitl Greadigol – Enwch eich prosiect gyda theitl greadigol

Creative Title – Name your project with a creative title.

‘O Dan Yr Arwyneb’

Pwnc: Dyle hwn enwi yn glir eich maes pwnc a’r cwestiwn mwyaf rydych yn archwilio.

Subject: This should name the subject area and the major question or provocation you wish to explore.

Y prif faes bwnc byddaf yn ymchwilio yw Seicoleg a’r hyn sy’n amlwg yn gysylltiedig; iechyd meddwl. Byddaf yn ymdrin â’r pwnc yma wrth ymchwilio i mewn i fathau gwahanol o gyflyrau sy’n dod wrth law a phynciau, megis iselder, gorbryder, caethiwed a mwy. Gan geisio darganfod yr hyn sy’n achosi person i ymddwyn a meddwl yn y ffyrdd priodol yma.

Byddaf yn cyffwrdd ar yr heriau sy’n wynebu perthnasodd sy’n peidio cyfathrebu a methu datrys problemau; sy’n aml yn arwain at broblemau hir dymor, problemau iechyd meddwl gan arwain at ysgariad.

Y cwestiwn mwyaf byddaf yn archwilio ydi; Sut mae iechyd meddwl yn effeithiau gwahanol bobl am wahanol resymau ar effaith mae’n ei gael ar berthnasau. Gan roi pwyslais ar sut ddechreuodd, sut mae pobl byw gyda’r cyflwr a’i oresgyn.

Tros olwg o’ch amcanion: Dyle hwn lefaru eich credoau a’ch amcan ar gyfer eich maes pwnc. Pwy fydd yn elwa – pwy yw’r gynulleidfa dethol?

Overview of aims: This should state your beliefs and goals for your subject. Who could benefit – who is the target audience?

Fy nghynulleidfa dethol yw 14 oed a hyn. Credaf ei bod yn bwysig addysgu plant yn eu harddegau am bynciau themâu dwys, a hynny yn ddigon buan fel ei bod ymwybodol ohonyn nhw ac yn gwybod sut i ddelio gyda’r teimladau seicolegol yma os yw’n eu heffeithio. Gallai ganiatáu iddynt ddatrys y problemau yma cyn gynted â phosib cyn iddo dyfu i fod yn rhwystr hirdymor.

Fy mwriad yw creu drama gignoeth sy’n portreadu pobl gyffredin sy’n mynd trwy gyfnod anodd yn eu bywydau gan wynebu rhwystrau wrth iddynt ddelio a chyflyrau a phroblemau cyffredin. Fy amcan yw dehongli nad oes neb yn berffaith- bod gan bawb wendidau unigryw eu hunain maent yn delio gyda. Mae pawb yn dioddef yn dawl ei hunain am rywbeth. Hyd yn oed y rhai mwyaf ‘hyderus’ a ‘hapus’

Rwyf yn bwriadu dod ag elfen o hiwmor i mewn i’r ddrama nawr ac yn y man er mwyn osgoi iddo fod yn rhy drwm ac undonog ac yn fwrn ar y gynulleidfa. Er hyn rwyf am gadw difrifoldeb i’r ddrama wrth wneud hyn.

Neges: Y pwysigrwydd o gyfathrebu ar rai rydych yn ei garu fwyaf a rhannu baich a nhw.

Y math o gyflwyniad - sut rydych am wireddu eich prosiect yn greadigol? e.e. *Drama gair am air, monolog , sioe gerdd, sioe ganeuon, sioe ddyfeisiedig.*

Proposed Practical Presentation - how you will you realize the project creatively? e.g. *Verbatim play, monologue, musical, song cycle, devised play.*

Rwyf am wireddu fy mhrosiect wrth greu 'drama lwyfan', gydag ambell fonolog wedi'i blethu o fewn y sgript sy'n ddeialog yn bennaf